Gofalwch eich bod yn barod

Mae toriadau mewn cyflenwad yn digwydd o dro i dro, yn aml o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth. Felly rydym yn argymell eich bod yn paratoi.

- Cadwch dortsh wrth law. Ceisiwch osgoi canhwyllau a gwresogyddion paraffîn.
- Ceisiwch gael radio weindio/batri/solar yn barod fel y gallwch wrando ar y newyddion diweddaraf ar radio lleol.
- Nid yw llawer o ffonau modern, yn arbennig rhai digidol neu ddiwifr yn gweithio yn ystod toriadau mewn cyflenwad. Cadwch un cyffredin wrth law i'w ddefnyddio.
- Gwarchodwch offer trydanol sensitif megis cyfrifiaduron gyda phlwg amddiffyn rhag ymchwydd.
- Os oes gennych lifft grisiau trydan, gwiriwch a oes yna handlen rhyddhau â llaw y gellir ei defnyddio i ddychwelyd y lifft grisiau yn ddiogel i'r gwaelod os bydd yn peidio gweithio.

Barod Os ydych yn cael gofal meddygol yn y cartref:

- Sicrhewch fod yr holl offer yn gweithio â batri.
- Ffoniwch ni ar y rhifau canlynol i'n holi ni am ein Cofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth:

  0845 724 0240 (Canolbarth Lloegr)
  0845 601 2989 (De Orllewin Lloegr)
  0845 601 3341 (De Cymru)

Beth i'w wneud yn ystod toriad mewn cyflenwad

- Gwiriwch a yw eich cymdogion wedi colli cyflenwad. Os nad ydynt, efallai bod y broblem yn ymwneud â'ch ffiwsiau.
- Gwiriwch fod eich switsh baglu heb ddiffodd. Os yw eich switsh baglu wedi diffodd, diffoddwch eich holl gyfarpar a cheisiwch ailosod y switsh baglu.
- Os nad yw eich switsh baglu wedi diffodd, ac na allwch ganfod unrhyw reswm arall, gadewch i ni wybod gan ddefnyddio'r rhifau yn y daflen hon.
- Diffoddwch unrhyw offer sensitif megis cyfrifiaduron neu beiriannau ffacs.
- Gofalwch bod drws eich rhewgell wedi ei gau - yn dibynnu ar y math o rewgell sydd gennych, gall y cynnwys aros wedi'i rewi am hyd at 12 awr. Gallwch hefyd hawlio am ddifetha cynnwys rhewgell ar yswiriant eich cartref.
- Yn ystod tywydd garw, am resymau technegol, ni allwn adfer y cyflenwad i'ch eiddo chi yn unig. Rydym yn amcanu at adfer cyflenwadau i bawb cyn gynted ag y gallwn. Os ydych yn cael trafferthion, ffoniwch ni - mae gennym drefniadau gyda Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched (WRVS) a'r Groes Goch Brydeinig i ddarparu cymorth i gwsmeriaid bregus.
- Os nad oes gennych nwy i goginio, efallai y gallai'ch cymdogion eich helpu gyda diodydd a bwyd poeth. Os yw'n bosibl, cynheswch boteli a bwyd babanod gyda dŵr poeth.
- Os ydych yn dioddef â phroblemau iechyd difrifol ffoniwch Linell Gymorth Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647. Mewn argyfwng, ffoniwch eich ysbyty lleol.

Cysylltu â ni i'n hysbysu am doriad mewn cyflenwad

Peidiwch â chymryd yn ganiataol ein bod yn gwybod nad oes gennych bŵer. Ffoniwch ni cyn gynted â phosibl. Os ydym eisoes yn gwybod am y broblem, dylem allu dweud wrthych pryd ydym yn disgwyl adfer eich cyflenwad. Ffoniwch ni ar:

De Orllewin Lloegr	**0800 365 900**
De Cymru	**0800 052 0400**
Dwyrain Canolbarth Lloegr	**0800 056 8090**
Gorllewin Canolbarth Lloegr	**0800 328 1111**

(Gall defnyddwyr ffonau testun ddeialu 18001 o flaen unrhyw un o'r rhifau uchod i ddefnyddio Text Relay i gael mynediad i'r gwasanaeth hwn).

Diogelwch yn gyntaf - gwifrau wedi disgyn

- Cadwch yn glir oddi wrth wifrau sydd wedi disgyn a chadw eraill oddi wrthynt hefyd. Ffoniwch yr Heddlu os oes ffordd neu lwybr wedi cau.
- Bob amser cymerwch yn ganiataol fod gwifren sydd wedi disgyn yn fyw a ffoniwch ar unwaith i'n hysbysu.
- Cymerwch ofal wrth glirio brigau sydd wedi disgyn neu falurion ar eich eiddo yn dilyn tywydd garw. Cadwch yn glir oddi wrth unrhyw beth allai fod yn cyffwrdd â gwifrau.

Ynglŷn â ni

Ni yw'r gweithredwr rhwydwaith dosbarthu trydan ar gyfer Canolbarth Lloegr, De Cymru a De Orllewin Lloegr.

Rydym yn cyflenwi trydan i dros 7.6 miliwn o gwsmeriaid mewn ardal gwasanaethu sy'n 55,300 cilomedr sgwâr.

Mae ein rhwydwaith yn cynnwys 216,000 cilomedr o linellau uwchben a cheblau tanddaearol, a 184,000 o is-orsafoedd.

Western Power Distribution(Dwyrain Canolbarth Lloegr) plc, No2366923
Western Power Distribution(Gorllewin Canolbarth Lloegr) plc, No3600574
Western Power Distribution (De Orllewin Lloegr) plc, No 2366894
Western Power Distribution (De Cymru) plc, No 2366985
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr
Swyddfa Gofrestredig: Avonbank, Feeder Road, Bristol BS2 0TB

Toriadau mewn cyflenwad

Cyngor defnyddiol

WESTERN POWER DISTRIBUTION

Gwasanaethu Canolbarth a De Orllewin Lloegr a Chymru